Department for Environment Food & Rural Affairs

# TAFLEN SAFLE RHEOLI AR Y FFIN



Canllaw un stop i fewnforio planhigion a chynnyrch planhigion i Brydain drwy Safleoedd Rheoli ar y Ffin.

**ADNABOD EICH RISG I FOD YN BAROD AR GYFER NEWID**

# CYNNWYS




01 Cyflwyniad

02 Beth yw safle rheoli ar y ffin?

03 Ffioedd a Thaliadau

04 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

06 Rhoi gwybod i’ch gyrrwr

07 Iawndal

08 Symud parseli

09 Cymorth

10 Rhagor o adnoddau

# CYFLWYNIAD

Wrth i'r cynllun Cyrchfan ddod i ben ar 30 Ebrill 2024, bydd Safleoedd Rheoli ar y Ffin (BCP) yn dod yn gwbl weithredol gyda gwiriadau ffisegol a hunaniaeth ar gyfer yr holl blanhigion a chynnyrch planhigion sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu cynnal gan Safleoedd Rheoli ar y Ffin neu Bwyntiau Rheoli.

Mae'r Safleoedd Rheoli ar y Ffin wedi cael eu defnyddio ers tro i reoli archwiliadau mewnforio o nwyddau o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac maent yn rhan hanfodol o drefn bioddiogelwch y Deyrnas Unedig. Mae'r staff yn y safleoedd hyn yn brofiadol ac yn wybodus yn y maes, sy'n golygu eu bod yn gallu nodi materion diffyg cydymffurfio a sicrhau bod nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol yn cael eu trin yn ddiogel ac yn ofalus.

Mae £705 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn seilwaith, staff a thechnoleg y ffin ym Mhrydain, i sicrhau bod ein systemau ffiniau yn gweithredu'n effeithiol ac yn cynnal llif effeithlon ar y ffin.

Roedd y cynllun cyrchfan nid yn unig yn rhoi hyblygrwydd i fusnesau wrth iddynt addasu i'r gofynion newydd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben, ond roedd hefyd yn rhoi amser i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddylunio seilwaith a phrosesau Safleoedd Rheoli ar y Ffin yn drylwyr, gan gynnal masnach heb wrthdaro, a diogelu bioddiogelwch Prydain.

Mae dewis llwythi ar gyfer archwiliadau ffisegol yn seiliedig ar risg, fel bod nwyddau risg is yn cael gwiriadau llai aml. Mae cyfundrefn iechyd planhigion Prydain yn seiliedig ar risg, ac mae hanes cydymffurfio masnachau penodol (lle mae'r fasnach yn gyfuniad o nwydd penodol o darddiad penodol) yn ffactor sylweddol wrth bennu risg bioddiogelwch. O ganlyniad, gall masnachau sydd â hanes llwyddiannus o gydymffurfio a bodloni meini prawf cymhwysedd rhagnodedig hefyd fod yn destun gwiriadau llai aml. Rheswm: Newid yr amlder fydd yn digwydd, nid pa mor drylwyr mae'r llwyth yn cael ei archwilio.



# BETH YW SAFLE RHEOLI AR Y FFIN?

Mae Safle Rheoli ar y Ffin yn safle arolygu sydd wedi ei ddynodi a'i gymeradwyo yn unol â deddfwriaeth Prydain ar gyfer gwirio planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n cyrraedd ffin Prydain. Mae'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal i ddiogelu bioddiogelwch.

Mae'r Safleoedd Rheoli ar y Ffin wedi eu cynllunio i ddelio â llawer iawn o nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol sy'n cael eu mewnforio ac i gynnig oriau agor estynedig.

Bydd staff yn gweithio shifftiau ar y safle i gynnal archwiliadau dibynadwy sy'n lleihau'r gwrthdaro ar lif y traffig gymaint â phosibl.





Gall y rhan fwyaf o'r Safleoedd Rheoli ar y Ffin brosesu cerbydau lluosog ar yr un pryd gyda digon o le i symud neu archwilio cynnyrch. Mae systemau ar waith i sicrhau bod mewnforwyr yn cael diweddariad ar gynnydd eu llwythi drwy'r broses rheoli mewnforio. Mae system TG mewnforio IPAFFS yn rhoi gwybod i'r mewnforiwr bod angen archwiliad cyn gynted ag y cyflwynir y rhaghysbysiad perthnasol. Pan gyflwynir rhaghysbysiad gyda'r hysbysiad gofynnol, gellir canfod statws archwilio'r llwyth cyn i'r nwyddau gyrraedd y ffin.

# FFIOEDD A THALIADAU



Mae'r nwyddau risg uchaf o weddill y byd yn destun archwiliadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol 100%.

Mae lefel y gwiriadau hunaniaeth a ffisegol ar nwyddau eraill yn seiliedig ar y risg a gyflwynir wrth fewnforio gwahanol blanhigion a nwyddau o wahanol darddiadau.

Mae'r dull asesu risg a rheoli risg hwn hefyd yn berthnasol i nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd ers 1 Ionawr 2021 ac o ganlyniad, mae eitemau risg uchel yn destun gwiriadau mewnforio i ddiogelu bioddiogelwch Prydain.

Ar gyfer llwythi sy'n gymwys i gael lefelau is o wiriadau corfforol, codir ffi sy'n gymesur ostyngol ar bob llwyth a fewnforir.

Bydd pob llwyth yn cael dogfen, manylion adnabod ac yn wynebu ffi archwilio ffisegol pa un a ydynt yn cael eu harchwilio ai peidio.

Ymgynghorwyd yn llawn ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd hyn yn 2017 ac nid yw'r sefyllfa wedi newid. Mae incwm ffioedd yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau nad oes gormod neu ddim digon yn cael ei adfer, a byddai unrhyw anghysondeb fel arfer yn cael ei gywiro yn y flwyddyn ddilynol.

Ers 22 Gorffennaf 2022, ar gyfer llwythi o blanhigion ar gyfer plannu a thorri, mae ffi cyfradd safonol wedi cael ei chodi. Roedd hyn yn berthnasol beth bynnag fo'r defnydd arfaethedig o'r nwyddau ac mae'n unol â'r ymgynghoriad blaenorol ar y mater hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am ffioedd cyfradd safonol ar gael drwy'r Porth Iechyd Planhigion.

Bydd 'Ffi Defnyddiwr Cyffredin' yn berthnasol i lwythi sy'n mynd i mewn i Brydain drwy Safleoedd Rheoli ar y Ffin sy'n cael eu rhedeg gan y Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, ac o bosibl yr Alban yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd pob Safle Rheoli ar y Ffin preifat yn codi ffioedd defnyddwyr. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael am hyn cyn bo hir.

# CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH AROLYGU

Mae cytundebau lefel gwasanaeth arolygu yn diffinio'r amser y bydd llwythi naill ai'n cael eu harchwilio neu eu rhyddhau o reolaeth iechyd planhigion. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn berthnasol o'r adeg y cyflwynir y llwyth i'w archwilio, nid pan fydd llwyth yn glanio ym Mhrydain.

Bydd APHA yn ceisio archwilio eich llwyth o fewn y pedair awr iddo gael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad corfforol. Os na fydd APHA yn gallu archwilio'r nwyddau o fewn y pedair awr hynny, bydd y nwyddau'n cael eu rhyddhau. Yr unig eithriadau yw y bydd rhai planhigion ar gyfer plannu angen penderfyniad dan arweiniad arolygydd i roi sicrwydd ychwanegol, cyn cael eu rhyddhau o Safle Rheoli ar y Ffin i sicrhau bod y planhigion risg uchaf sy'n fwy agored i blâu a chlefydau, fel planhigion prennaidd ar gyfer lluosogi, yn cael eu harchwilio'n amlach. (Er gwybodaeth, dylid gwneud penderfyniadau a arweinir gan arolygydd o fewn pedair awr ar gyfartaledd).



# CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH PROFION LABORDY

## PROFION LABORDY

Mae'r amser a gymerir i roi diagnosis labordy swyddogol yn amrywio yn dibynnu ar gyflwr y sampl a'r math o organeb a ganfuwyd. Mae amseroedd cyflawni yn dechrau pan fydd y labordy'n derbyn sampl. Mae'r rhan fwyaf o samplau'n cael diagnosis o fewn 24 awr. Ond ar gyfer samplau mwy cymhleth, bydd yn cymryd mwy o amser a gall gymryd hyd at 20 diwrnod.

Bydd angen i nwyddau sy'n cael eu harchwilio mewn Safle Rheoli ar y Ffin, y mae angen eu cadw ar ôl cael diagnosis mewn labordy, aros yn y Safle Rheoli ar y Ffin. Cyfrifoldeb y gweithredwr yw storio'r nwyddau hyn ac at y diben hwn mae ganddynt gyfleusterau storio bio-ddiogel.

## BETH SY'N DIGWYDD OS CANFYDDIR PLA/AFIECHYD?

Mae'r ffordd mae APHA yn ymdrin â digwyddiad yn dibynnu ar y lleoliad (y porthladd/maes awyr), y sawl yr ystyrir ei fod yn gyfrifol am y llwyth (mewnforiwr/asiant/gweithredwr y llwyth), a natur y broblem (problem â thystysgrif ffytoiechydol neu ganfod pla.)

Gellir cymryd y camau a ganlyn pan ganfyddir pla:

- Ar ôl cadarnhau pla neu gynnyrch gwaharddedig, bydd Arolygwyr Iechyd Planhigion a Hadau (PHSI) yn gweithredu. Yn dibynnu ar y math o ddiffyg cydymffurfio, bydd camau naill ai'n cael eu cymryd yn erbyn y llwyth cyfan neu'r rhan o'r llwyth yr effeithir arni yn unig, a bydd y canlyniad yn cael ei gofnodi ar IPAFFS.
- Hollti yw gwahanu nwyddau unigol o fewn llwyth. Pan fydd y PHSI yn caniatáu hollti, bydd angen i hyn gael ei drefnu neu ei wneud gan y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth cyn clirio'r tollau. Bydd hollti yn gofyn i'r asiant ailgyflwyno'r CDS a chofnodion IPAFFS Defra ar gyfer y rhan o'r llwyth sydd wedi ei heintio a'r rhan heb ei heintio. Os na all y mewnforiwr drefnu i'r cais gael ei rannu, rhaid i'r PHSI weithredu ar y llwyth cyfan.
- Bydd y PHSI yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol sy'n cael eu cymryd ar sail y risg i fioddiogelwch yn y Deyrnas Unedig. Dyma'r mathau mwyaf cyffredin o gamau a gymerir:
    - Ail-allforio i'r wlad wreiddiol ar yr amod y bydd y wlad honno'n derbyn y llwyth yn ôl ac nad oes risg bioddiogelwch i'r Deyrnas Unedig. Rhaid i geisiadau o'r fath am ail-allforio gael eu gwneud yn ysgrifenedig.
    - Mynnu bod y nwyddau'n cael eu trin ar yr amod nad yw hyn yn arwain at fwy o faterion bioddiogelwch i'r Deyrnas Unedig
    - Dinistrio'r nwyddau - dyma'r ffordd fwyaf cyffredin o weithredu.



# RHOI GWYBOD I’CH GYRRWR

Fel y mewnforiwr, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i’r gyrrwr danfon os yw eich llwyth wedi cael ei ddewis ar gyfer archwiliad a bod yn rhaid iddo ei gyflwyno i’r Safle Rheoli ar y Ffin neu’r Man Rheoli enwebedig ar ôl cyrraedd Prydain.

Fel y mewnforiwr (neu asiant sy’n gweithredu ar eich rhan), eich cyfrifoldeb cyfreithiol chi yw bod llwyth yn cael ei gyflwyno i’r Safle Rheoli ar y Ffin enwebedig (a nodwyd gennych ar y rhaghysbysiad) ar gyfer gwiriadau wrth gyrraedd Prydain. Dyma’r dull gweithredu a fu erioed ar gyfer mewnforio planhigion a chynnyrch planhigion o’r tu allan i’r Undeb Ewropeaidd sy’n cael eu harchwilio gan Safleoedd Rheoli ar y Ffin.

Bydd y sawl a gyflwynodd y rhaghysbysiad ar IPAFFS yn cael gwybod ar unwaith ar y system os oes angen iddynt gyfeirio eu nwyddau i’w Safle Rheoli ar y Ffin enwebedig ar gyfer archwiliadau ffisegol a gwiriadau adnabod.

Mae APHA a Llywodraeth yr Alban yn cadw’r hawl i ddiystyru’r penderfyniad uniongyrchol sy’n seiliedig ar risg ar IPAFFS, felly dylai’r rhag-noddwr fonitro’r dangosfwrdd TG yn rheolaidd ar gyfer diweddariadau i statws eu nwyddau.

Rhaid i’r sawl a gyflwynodd y rhaghysbysiad roi gwybod wedyn i’r cludwr neu’r cwmni cludo bod y nwyddau wedi cael eu dewis ar gyfer archwiliadau a’u cyfarwyddo i yrru i’r Safle Rheoli ar y Ffin. Cyfrifoldeb cyfreithiol y mewnforiwr yw cyfeirio llwyth sydd wedi ei ddewis i’w archwilio i’r Safle Rheoli ar y Ffin enwebedig.

Wrth gyflwyno rhaghysbysiadau ar IPAFFS, gofynnir i’r rhag-hysbyswr fewnbynnu Amcangyfrif o’r Amser Cyrraedd (ETA) er mwyn i’r nwyddau gyrraedd eu Safle Rheoli ar y Ffin enwebedig.

Dylai’r amser hwn fod mor gywir â phosibl, er mwyn sicrhau bod modd cynnal yr archwiliadau mor effeithlon â phosibl.

O fewn IPAFFS - adeg y rhaghysbysu - gallwch ychwanegu hyd at bum enw a rhif cyswllt a fydd yn cael neges destun os dewisir eich llwyth i’w archwilio. Rydym yn argymell bod un o’r cysylltiadau hyn ar gyfer y gyrrwr neu’r cwmni cludo. Ddwy awr cyn amser yr arolygiad yn eich rhaghysbysiad, byddwch chi a’r holl gysylltiadau a enwir yn cael neges destun i’ch atgoffa os bydd eich nwyddau’n cael eu dewis i’w harchwilio.

Byddai Defra yn annog mewnforwyr i gysylltu’n gynnar â’u cwmni cludo nwyddau, er mwyn rheoli’r broses hon mor effeithlon â phosibl.

# IAWNDAL

Mae staff wedi eu hyfforddi i ddelio â’r holl nwyddau’n ofalus ac mewn modd bio-ddiogel. Os oes angen samplu dinistriol, neu os deuir o hyd i dystiolaeth o blâu/clefydau yn ystod archwiliadau mewnforio, mae’r mewnforiwr yn ysgwyddo cost colli’r llwyth a’i waredu.

Polisi llywodraethau olynol fu peidio â thalu iawndal mewn amgylchiadau o’r fath, gan ein bod ni o’r farn y dylid cyfeirio adnoddau at ganfod plâu ac afiechydon, rheoli risg, ac ymchwil.

Profiad o fewnforion o’r tu allan i’r Undeb Ewropeaidd, sydd wedi bod yn destun gwiriadau mewnforio systematig ers blynyddoedd lawer, yw bod achosion o lwythi sydd wedi eu difrodi yn brin.

Ymgymerir â’r gwaith o drin a symud llwythi o gerbydau cludo gan weithredwyr yn y Safleoedd Rheoli ar y Ffin.

Nid yw arolygwyr iechyd planhigion yn gyfrifol am symud nwyddau ac fe’u cyfarwyddir i aros nes bod llwyth wedi ei symud i fan archwilio i wneud gwiriadau.

Lle honnir bod difrod wedi ei achosi mewn amgylchiadau sy’n wahanol i’r rhai a ddisgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, mae gweithdrefn gwyno ar gael.

Caiff cwynion eu hasesu fesul achos gan dîm annibynnol.

Rydym yn cymryd pob cwyn o’r fath o ddifri ac yn anelu at eu datrys yn brydlon.

Mae manylion y broses hon ar gael yn Gov.uk, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar y Porth Iechyd Planhigion maes o law.






# SYMUD PARSELI

Mae symud parseli o un busnes y tu allan i Brydain i un arall ym Mhrydain yn ddarostyngedig i'r un gofynion seiliedig ar risg (hysbysiad mewnforio drwy IPAFFS, ardystio a gwirio iechyd, yn dibynnu ar risg) ag unrhyw fewnforio arall o nwyddau SPS. Bydd symudiadau parseli o'r math hwn hefyd yn dilyn yr un amserlen weithredu ar gyfer rheolaethau Iechydol a Ffytoiechydol.



# CYMORTH

Gweler isod fanylion cyswllt APHA, Llywodraeth yr Alban a'r Comisiwn Coedwigaeth:

**Ar gyfer planhigion a chynnyrch a arolygir gan APHA:**

Ffoniwch y ddesg gymorth bwrpasol ar gyfer mewnforion ar 0300 100 0313 (ar gael rhwng 07.00 a 23.59)

*neu*

Anfonwch e-bost i flwch post desg gymorth Mewnforio PHSI: phsi-importers@apha.gov.uk

**Ar gyfer planhigion a chynnyrch a arolygir gan SASA:**

E-bostiwch y blwch post Garddwriaeth a Marchnata: hort.marketing@gov.scot

**Ar gyfer pren, cynhyrchion pren a rhisgl wedi ei wahanu a arolygwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth:**

Ffoniwch y Gwasanaeth Iechyd Planhigion Trawsffiniol ar 0300 067 515

*neu*

E-bost: plant.health@forestrycommission.gov.uk

Os oes gennych chi neu eich gyrrwr gwestiynau am eich llwyth, mae'n bwysig cael y manylion a ganlyn er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a chywir:

- Cyfeirnod CHED-PP
- BCP
- Gwlad Allgludo
- Cyfeirnod y Ddogfen
- Cwsmer (Mewnforiwr)
- Lleoliad yr Arolygiad

Os ydych chi'n asiant neu'n fewnforiwr, gwnewch yn siŵr bod gan eich gyrrwr yr holl wybodaeth sydd ei hangen rhag ofn y bydd ganddo gwestiwn am leoliad neu amseriad yr archwiliad. Ni all CIT ac APHA ddarparu gwybodaeth gywir am lwythi heb y manylion hynny.

I gael cyngor ar yr arferion pacio a llwytho gorau ar gyfer lorïau er mwyn gallu cynnal archwiliadau'n rhwydd os oes angen, ewch i'r Porth Iechyd Planhigion.

# RHAGOR O ADNODDAU

Mae rhagor o wybodaeth am BCP ar gael ar y tudalennau a ganlyn:

**Y PORTH IECHYD PLANHIGION:**

- Canllawiau BCP
- Fideo BCP

**GOV.UK:**

- Rhestr BCP



## CYSYLLTU Â NI

E-bost: planthealtheuexitqueries@defra.gov.uk